**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Newid yn yr Hinsawdd ac Adfer Natur

**Cyfarfod Aml-leoliad - Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 4 Mawrth 2024 am 3.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R Fogarty (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorydd** | **Y Cynghorydd** |
|---|---|---|
| M Baker | O G James | H Lawson |
| S E Keeton | | |

**Hefyd yn Bresennol:**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd D H Hopkins | Dirprwy Arweinydd / Aelod y Cabinet dros Wasanaethau a Pherfformiad Corfforaethol |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Geoff Bacon | Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo |
| Mark Barber | Swyddog yr Amgylchedd Naturiol a Bioamrywiaeth/Cydlynydd y Bartneriaeth Natur Leol (PNL) |
| Deb Hill | Arweinydd y Tîm Cadwraeth Natur |
| Rachel Lewis | Rheolwr y Prosiect |
| Paul Meller | Rheolwr Is-adran yr Amgylchedd Naturiol |
| Kieran O'Carroll | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Jane Richmond | Rheolwr Prosiect Strategol Newid yn yr Hinsawdd |
| Mark Wade | Pennaeth Tai ac Iechyd y Cyhoedd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): D Phillips a/ac A H Stevens

---

## 29 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 30 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Newid yn yr Hinsawdd ac Adfer Natur a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2023 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

**31 Cynllun Gweithredu Dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 ar gyfer Abertawe.**

Cyflwynodd y Cynghorydd D H Hopkins, Dirprwy Arweinydd / Aelod y Cabinet dros Wasanaethau a Pherfformiad Corfforaethol yr adroddiad, a oedd i fod i gael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 21 Mawrth 2024 ac a oedd yn Flaenoriaeth Gorfforaethol i'r Awdurdod.

Cyflwynodd Paul Meller, Rheolwr Is-adran yr Amgylchedd Naturiol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer fersiwn ddrafft Cynllun Gweithredu Adran 6 y Ddyletswydd Bioamrywiaeth ar gyfer Abertawe. (2023-2025).

Esboniwyd bod Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Rhan 1) Adran 6 Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau yn ei gwneud yn ofynnol i: ‘awdurdod cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i’r graddau y bo hynny’n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny’n briodol’.

Roedd gan Gyngor Abertawe ddyletswydd gyfreithiol i gyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru bob tair blynedd yn amlinellu camau a gymerwyd i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth Statudol.

Roedd y cynllun gweithredu Adran 6 drafft yn Atodiad A yn darparu'r camau gweithredu y bwriadai'r Cyngor eu cymryd rhwng nawr a mis Rhagfyr 2025 i gyflawni ei rwymedigaethau o dan ei Ddyletswydd Bioamrywiaeth i gynnal a gwella bioamrywiaeth a chyfrannu at dargedau 30 x 30 Llywodraeth Cymru ar gyfer adfer natur.

Darparwyd y camau gweithredu a ddisgrifiwyd o dan chwe amcan allweddol Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru a Chynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol Abertawe.

Nododd Mark Barber, Swyddog Bioamrywiaeth, fod y camau gweithredu parhaus yn ddibynnol ar adnoddau staff a chyllid Llywodraeth Cymru, a fyddai'n cael ei ddarparu hyd at 2025 ar hyn o bryd.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol: -

- Yr angen i gynnwys gweithio gydag ysgolion i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwelliannau bioamrywiaeth ac isadeiledd gwyrdd ar diroedd ysgolion.
- Gwneud Cynghorau Cymuned a Thref yn ymwybodol o'r adroddiad. Nodwyd bod cyflwyniad yn cael ei wneud i'r Fforwm Cynghorau Cymuned a Thref ar 4 Mawrth 2024 a bod pob cyngor yn gyfrifol am lunio'i gynllun ei hun. .
- Cyfrifoldebau cyfreithiol y Cyngor mewn perthynas â llygredd dŵr, pridd ac aer, sut mae'n cydweithio â sefydliadau eraill, e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a sut y byddai cynnwys materion o fewn y cynllun gyda lwc yn darparu rhagor o gyllid tuag at fynd i'r afael â llygredd.
- Cynnwys teithio llesol o fewn y cynllun, sy'n gam cadarnhaol.

- Darparu cynllun manylach sy'n cysylltu'r holl gamau gweithredu eang â'i gilydd a fydd yn cynnwys cyfrannu at dargedau bioamrywiaeth 30 x 30 Llywodraeth Cymru.
- Pwysigrwydd allweddol adfer natur.
- Pwysigrwydd ei gynnwys o fewn y Cynllun Corfforaethol a chydweithio yn y dyfodol.
- Newid deddfwriaeth sy'n cael ei chyflwyno i gryfhau bioamrywiaeth o ran y broses gynllunio.
- Pwysigrwydd draenio cynaliadwy.
- Y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno o fewn y Cynllun Datblygu Lleol newydd.

**Penderfynwyd:** -

1) Cymeradwyo Cynllun Gweithredu drafft Adran 6 y Ddyletswydd Bioamrywiaeth ar gyfer Cyngor Abertawe a'i gyflwyno i'r Cyngor i'w fabwysiadu.
2) Ychwanegu gweithio gydag ysgolion i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwelliannau bioamrywiaeth ac isadeiledd gwyrdd ar diroedd ysgolion at y Cynllun sy'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor.

**32 Cynllun Gwaith**

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad diweddaredig am y Cynllun Gwaith.

Nododd fod y Strategaeth Codi Tâl CT Cyhoeddus yn parhau i fod yn eitem sy'n weddill ac y byddai'n cadarnhau a oedd Craffu yn edrych ar y pwnc.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.32 pm

**Cadeirydd**